RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 72/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 13/07/2023

# Gwerthusiad o'r Grant Busnes i Ffermydd

## Crynodeb Gweithredol

## 1. Amcanion a methodoleg yr ymchwil

1.1 Yn nyluniad cychwynnol y cynllun, rhoddai'r Grant Busnes i Ffermydd (FBG) grantiau rhwng £3,000 a £12,000. Prif amcanion yr FBG oedd cynyddu buddsoddiadau ar ffermydd, gwella perfformiad technegol a chynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd adnoddau ffermydd. Roedd y cynllun hefyd yn ceisio cefnogi ffermwyr â chynllunio busnes.

1.2 Nod yr ymchwil oedd deall sut y dylanwadodd dyluniad a gweithrediad y cynllun ar y nifer a oedd wedi manteisio ar y cymorth. Canolbwyntiai'r ymchwil ar ddeall barn a phrofiadau ffermwyr yng nghylchoedd ariannu 1 i 7 yr FBG. Yn y cylchoedd ariannu hyn, roedd yn rhaid i ddarpar ymgeiswyr fynychu Digwyddiad Trosglwyddo Gwybodaeth (KTE) Ffermio i'r Dyfodol.

1.3 Er mwyn cyflawni hyn, aeth yr ymchwil ati i holi ffermwyr am eu barn a'u profiadau. Rhoddodd Cyswllt Ffermio a Thaliadau Gwledig Cymru (RPW) wybodaeth am ffermydd ac o'r rhain codwyd hapsampl haenedig o ffermydd, ar draws tri grŵp gwahanol:

- y rheiny nad oedd wedi mynychu KTE Ffermio i'r Dyfodol (nifer yn y boblogaeth yn y wybodaeth a gafwyd = 3,181, nifer y sampl = 177)
- y rheiny a oedd wedi mynychu ond heb wneud cais am grant (nifer yn y boblogaeth = 3,781, nifer y sampl = 305), ac
- y rheiny a oedd wedi mynychu ac wedi cael grant (nifer yn y boblogaeth = 2,779, nifer y sampl = 327).

1.4 Cynhaliwyd y dulliau ymchwil canlynol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021:

- Cyfweliadau cwmpasu gyda phrif randdeiliaid (sef staff oedd yn rhan o gynllunio a gweithredu'r FBG yn Llywodraeth Cymru ac mewn asiantaethau eraill a grwpiau ffermwyr)
- Arolwg dros y ffôn (n= 809, cyfradd ymateb o 63.6 y cant)
- Pedwar grŵp ffocws gyda ffermwyr, i roi canfyddiadau a themâu'r arolwg ar brawf
- Astudiaethau achos yn seiliedig ar chwech o gyfweliadau manwl â ffermydd

## 2. Prif ganfyddiadau

### Nodweddion, Agwedd ac Ymddygiad, ac Ymgysylltu â'r FBG

2.1 Roedd nodweddion sylfaenol y ffermydd wedi amrywio ar draws y tri grŵp, gan gynnwys y rheiny nad oedd wedi mynychu KTE, y rhai a fynychodd ond na wnaeth gais, a'r rhai a wnaeth gais yn y pen draw. Roedd y rhai a nododd drosiant uwch, er enghraifft, yn fwy tebygol o wneud cais na'r rhai a ddywedodd bod eu trosiant yn llai na £50,000. Roedd amrywiad hefyd yn ôl math o fferm rhwng y rhai a oedd wedi ymwneud â'r FBG, a'r amcangyfrif o boblogaeth ffermydd ym mhob sector ledled Cymru.

2.2 Gan ddefnyddio Model Segmentu Ffermydd Llywodraeth Cymru,[1] roedd gwahaniaethau amlwg o ran ymgysylltu â'r FBG ac agwedd ffermydd ar draws y tri grŵp. Roedd ffermydd a oedd yn tueddu i fod yn fwy traddodiadol eu hagwedd yn llai tebygol o fynychu KTE. Roedd cysylltiadau hefyd rhwng ymddygiad ehangach ymatebwyr a gwneud cais am grant ai peidio. Roedd y rhai a oedd yn hanesyddol wedi ymgysylltu fwy â Chyswllt Ffermio yn fwy tebygol o wneud cais yn y pen draw. Roedd cysylltiad cadarnhaol hefyd rhwng defnyddio cynlluniau grant eraill yn flaenorol ac ymgysylltu â'r FBG.

2.3 Mae'r sylwadau hyn yn dangos y gallai ffactorau economaidd, agwedd ac ymddygiad fod wedi dylanwadu ar lefel a graddau'r ymgysylltiad ac ar y nifer a oedd wedi manteisio ar yr FBG. Awgryma hyn fod yna ffactorau sy'n llywio ymgysylltu sy'n annibynnol ar y ffordd y cafodd y cynllun ei ddylunio a'i weithredu, gan gynnwys y gofyniad i fynychu KTE Ffermio i'r Dyfodol fel amod ariannu.

### Y rheiny nad oedd wedi mynychu KTE (N= 177)

2.4 O ran cyfansoddiad y grŵp hwn, tueddent i fod â ffermydd llai, o ran trosiant a maint y daliad. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod â chredoau ac agweddau cyffredinol a oedd yn fwy traddodiadol (yn seiliedig ar y Model Segmentu Ffermydd) ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn cynllunio tymor byr a hirdymor.

2.5 Rhoddwyd disgrifiad byr o'r FBG i'r ymatebwyr. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn ymwybodol o'r cynllun (n= 141, 79.6 y cant). Wrth archwilio'r rhesymau pam nad oeddent wedi gwneud cais, teimlai 51 o ymatebwyr nad oedd angen buddsoddiad cyfalaf pellach arnynt (28.8 y cant). Teimlai eraill y gallai buddsoddiad pellach fod yn fuddiol, ond nid oeddynt wedi gwneud cais oherwydd bod yr isafswm y byddai'n rhaid iddynt wario yn rhy uchel (n= 35, 19.7 y cant).

2.6 Mae hyn yn awgrymu bod ffermwyr o bosibl wedi bod yn cadw cydbwysedd rhwng gofynion buddsoddi eu ffermydd ac arbedion economaidd posibl o wneud cais. Pan dybid bod yr arbedion hynny yn ymylol, roedd tuedd i beidio â gwneud cais am y grant. Er bod y mwyafrif wedi penderfynu ar yr adeg honno nad oedd y cynllun ar eu cyfer nhw, dywedodd 76 y cant y byddent yn ystyried gwneud cais yn y dyfodol (n= 133).

### Wedi mynychu KTE, ond heb wneud cais am Grant (N= 305)

2.7 Tueddai ffermydd yn y grŵp hwn i fod yn fwy o ran trosiant uwch a'u daliad yn fwy o faint. Roeddent hefyd yn eithaf tebygol i gryn raddau o fod yn cynrychioli'r holl ffermydd ar draws y sampl o ran agweddau at ffermio.

---

[1] **Lee-Woolf C, Hughes O, King G a Fell D** (2015) Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.

2.8 Yn gyffredinol, roedd barn y rheiny a oedd wedi mynychu KTE yn gadarnhaol iawn. Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan o'r farn bod y digwyddiadau KTE wedi bod yn werthfawr ac yn addysgiadol o ran deall sut roedd y cynllun yn gweithio ac a oedd yn addas iddyn nhw ai peidio (n= 195, 64.4 y cant).

2.9 Yn y penderfyniad i beidio â gwneud cais am grant yn y pen draw, roedd yr ymatebion yn awgrymu bod penderfyniadau buddsoddi yn gymhleth a bod sawl dimensiwn iddynt. Mewn sgyrsiau manylach mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl, roedd ymatebwyr wedi sôn am bwyso a mesur ystod o ffactorau wrth benderfynu a ddylid gwneud cais am grant ai peidio. Roedd hyn yn cynnwys gofynion cyfalaf eu busnes, yr eitemau a oedd ar gael drwy'r cynllun, yn ogystal â'r costau economaidd a'r arbedion posibl. Gyda'i gilydd, teimlai 36.4 y cant (n= 108) o'r ymatebwyr nad oedd yr eitemau cyfalaf a oedd ar gael drwy'r cynllun yn briodol ar gyfer eu busnes. Roedd maint y grant ei hun, sef rhwng £3,000 a £12,000, hefyd yn rhwystr sylweddol. Roedd ymatebwyr yn aml yn teimlo bod y trothwyon gwariant lleiaf yn rhy uchel (77 y cant, n= 81).

2.10 At ei gilydd, awgryma'r dystiolaeth nad oedd y digwyddiadau KTE eu hunain yn rhwystr sylweddol i ymgysylltu â'r FBG. Mae ffactorau eraill a allai beri rhwystrau mwy sylweddol i ymgysylltu, gan gynnwys rhai yn nyluniad cyffredinol y cynllun ac ystyriaethau economaidd ac agwedd ehangach.

**Wedi mynychu KTE ac wedi gwneud cais am grant (N= 327)**

2.11 Tueddai'r grŵp hwn i fod yn fwy o ran maint, yn ôl trosiant a maint y daliad. Roeddent hefyd yn fwy tebygol na'r sampl ehangach o fod â chredoau ac agweddau sy'n rhoi blaenoriaeth i gael yr incwm uchaf posibl ac yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau busnes a chynllunio wrth redeg fferm lwyddiannus.

2.12 Roedd y KTE, ar y cyfan, yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ac yn ffynhonnell wybodaeth bwysig i gael mynediad i'r cynllun. At ei gilydd, teimlai 68.7 y cant o'r ymatebwyr fod y KTE wedi bod yn bwysig neu'n bwysig iawn o ran deall sut roedd y cynllun yn gweithio ac wrth benderfynu a oedd yn addas iddynt hwy ai peidio (n= 208). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth gais yn teimlo'n gadarnhaol am y broses ymgeisio am FBG. O gymharu â grantiau a chynlluniau eraill yr oeddent wedi gwneud cais amdanynt, teimlai'r mwyafrif fod proses yr FBG yn hawdd neu'n hawdd iawn i wneud cais iddi (n= 262, 80.6 y cant).

**Effaith yr FBG**

2.13 Trwy ddyluniad y cynllun ac wrth ddosbarthu grantiau, ceisiodd yr FBG wneud y canlynol:

(i) annog ffermwyr i ymgysylltu â Chyswllt Ffermio ac â'r cymorth sydd ar gael iddynt;

(ii) annog y mynychwyr i ystyried datblygu busnes cynaliadwy a gwella perfformiad drwy fuddsoddiadau cyfalaf;

(iii) cynyddu buddsoddi ar ffermydd, perfformiad technegol, effeithlonrwydd cynhyrchu ar y fferm, ac effeithlonrwydd adnoddau fferm.

2.14 Roedd dyluniad y cynllun yn effeithiol o ran ysgogi ymgysylltiad â Chyswllt Ffermio ymhlith y rhai a fynychodd KTE ac na wnaeth gais (21.2 y cant), yn ogystal â'r rhai a wnaeth gais (19.8 y cant). Y rheswm pennaf i bobl ymuno â'r gwasanaeth oedd cael ymgeisio am y grant. Roedd hefyd wedi cynyddu ymgysylltiad â chymorth a gynigir drwy Gyswllt Ffermio. Mae ystod o effeithiau posibl yn deillio o'r mwy o ymgysylltu hwn sy'n dibynnu ar natur y cymorth a gyrchwyd, a pha mor effeithiol oedd y ddarpariaeth o ran gwella canlyniadau.

2.15 O ran effaith mynychu KTE ei hun, roedd y rhai a wnaeth gais yn fwy tebygol o fod wedi adolygu eu gweithrediadau busnes na'r rhai na wnaeth gais (26.8 a 17.5 y cant yn y drefn honno). Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu bod mandadu presenoldeb mewn KTE wedi arwain at newid agwedd cymedrol ond gwerthfawr (gweld gwerth mewn adolygu gweithrediadau) ac enillion gwybodaeth (sut y gellid cyflawni hynny'n ymarferol) yn ymwneud ag arferion busnes a buddsoddiadau cynaliadwy.

2.16 Roedd tystiolaeth hefyd fod y buddsoddiadau yn cefnogi cynnydd mewn buddsoddiad ar ffermydd a gwelliannau dilynol i berfformiad technegol ac effeithlonrwydd cynhyrchu. Roedd canfyddiad cyffredinol bod y grant yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn cael effaith gadarnhaol. Drwyddi draw, nododd 75.2 y cant o ymatebwyr welliannau i gynhyrchiant ac effeithlonrwydd adnoddau yn dilyn y grant (n= 170).

2.17 Oherwydd heriau empirig ac ymarferol, mae nifer o fylchau yn ein dealltwriaeth o ba mor effeithiol oedd digwyddiadau KTE a'r buddsoddiadau dilynol a wnaed drwy'r FBG wrth ysgogi canlyniadau cadarnhaol. Gyda'i gilydd, mae'r data'n awgrymu fodd bynnag bod ystod o effeithiau posibl ar ffermydd a busnesau unigol, ac ar yr economi ehangach. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau uniongyrchol i berfformiad ffermydd, yn ogystal ag effeithiau ehangach maes o law yn deillio o fwy o ymgysylltu â Chyswllt Ffermio.

## 3. Casgliadau ac argymhellion

3.1 Ar y cyfan, canfu'r ymchwil fod y farn am yr FBG yn gadarnhaol. Teimlai llawer fod y broses ymgeisio yn syml ac yn ddidrafferth. Cafodd digwyddiadau Ffermio i'r Dyfodol i drosglwyddo gwybodaeth dderbyniad da ar y cyfan, ac roeddent yn effeithiol wrth ysgogi ffermwyr i ymwneud mwy â'r cymorth a'r cyngor ehangach a gynigir trwy Gyswllt Ffermio.

3.2 Roedd gwahaniaethau i'w gweld yn nodweddion y ffermydd a lefelau eu hymgysylltu â'r FBG. Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu bod yna ffactorau sy'n llywio ymgysylltiad â'r FBG yn annibynnol ar y ffordd y mae'r cynllun wedi'i ddylunio a'i roi ar waith (e.e. maint economaidd ffermydd, math o fferm, agwedd y ffermwyr eu hunain am arloesi).

3.3 Pan oedd rhwystrau yn bodoli yn nyluniad yr FBG, tueddai'r rhain i ganolbwyntio ar raddau a natur yr eitemau cyfalaf a gynigid drwy'r cynllun a'r isafswm cost i'r ymgeiswyr eu hunain. Ni chanfuwyd bod cofrestru â Chyswllt Ffermio a mynychu KTE Ffermio i'r Dyfodol yn rhwystr sylweddol i ymgysylltu. O ran mynd i'r afael â rhwystrau posibl yng nghynllun FBG:

**Argymhelliad 1**: Dylid adolygu opsiynau ar gyfer ehangu'r cymorth sydd ar gael i ffermydd sy'n llai tebygol o fod wedi manteisio ar yr FBG, gan gynnwys y rheiny sydd â throsiant o dan £50k. Gallai hyn gynnwys lleihau'r isafswm gwariant sydd ei angen i gael y grant, ac/neu ehangu ychydig ar y rhestr o eitemau sydd ar gael. Gallai hefyd gynnwys ystyried dulliau amgen o gefnogi'r ffermydd hyn i ddatblygu eu perfformiad technegol ac amgylcheddol.

3.4 Ar y cyfan, roedd y rhai a fynychodd ddigwyddiadau KTE wedi eu cael yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol. Ar draws yr arolwg ac mewn grwpiau ffocws, dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oeddent wedi deall yn llawn elfennau o'r FBG, neu fod camddealltwriaeth ymddangosiadol am ddyluniad y cynllun, beth oedd ei angen i fod yn gymwys a'r broses ymgeisio. Roedd y rhain yn safbwyntiau ymylol fodd bynnag gan fod y cyfathrebiadau cyffredinol yn effeithiol a chlir.

**Argymhelliad 2:** Dylid adolygu cyfathrebiadau ar draws y cynllun FBG i edrych ymhle y gellir symleiddio neu egluro negeseuon ynghylch ei amcanion, sut i fod yn gymwys, a phrosesau ymgeisio. Mae hyn yn cynnwys negeseuon yn nigwyddiadau KTE ac mewn dogfennaeth a chanllawiau ehangach.

3.5 Roedd cynnwys cymorth ehangach ochr yn ochr â grantiau cyfalaf yn ddull effeithiol o hyrwyddo amcanion yr FBG. Roedd annog darpar ymgeiswyr i gofrestru â Chyswllt Ffermio wedi ehangu a dyfnhau'r ymgysylltiad â'r cymorth a gynigir. Dangosodd y digwyddiadau KTE eu hunain effaith gymedrol ar wybodaeth ac ymddygiad yn ymwneud â chynllunio busnes cynaliadwy.

**Argymhelliad 3:** Dylid ystyried rôl a photensial pecynnau cymorth ehangach ar gyfer cynlluniau grant cyfalaf yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys darparu hyfforddiant fel rhan o broses ymgeisio, neu fecanweithiau eraill megis trefnu dysgu rhwng cymheiriaid er mwyn cefnogi ac annog lledaenu gwybodaeth a thrafodaeth, megis drwy KTE.

3.6 O ran effeithiau ehangach y rhaglen, roedd tystiolaeth ddangosol yn awgrymu bod buddsoddiadau wedi ysgogi gwelliannau i effeithlonrwydd technegol ffermydd. Roedd hyn yn cynnwys arbed amser, gwneud prosesau'n fwy effeithiol ac effeithlon, ac yn y pen draw sicrhau arbedion i'r fferm neu'r busnes. Roedd hefyd effeithiau posibl ehangach maes o law yn deillio o ymwneud mwy â chymorth Cyswllt Ffermio.

3.7 At ei gilydd, mae'r FBG yn cynnig enghreifftiau pwysig o arfer effeithiol wrth ddylunio a gweithredu cynlluniau grant cyfalaf sydd â'r nod o gefnogi'r gymuned ffermio.

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad: Llorenc O'Prey, Sarah Usher a Tony Jones

Adroddiad Ymchwil Llawn: O'Prey L, Usher S a Jones T (2023) Gwerthusiad o'r Grant Busnes i Ffermydd: Crynodeb Gweithredol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 72/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-grant-busnes-i-ffermydd-fbg

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-303-5